# Adroddiad crynodeb i rieni a gofalwyr ar Ysgol Bodafon

Dyddiad yr arolygiad: Tachwedd 2025

Mae'r adroddiad hwn hefyd ar gael yn Saesneg

# Crynodeb

Mae Ysgol Bodafon yr Eglwys yng Nghymru yn gymuned wresog a chynhwysol lle mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel, yn hapus a'u bod yn cael eu parchu. Mae staff yn adnabod y disgyblion yn dda ac yn meithrin perthnasoedd cryf sy'n magu hyder ac agweddau cadarnhaol at ddysgu. Mae'r awyrgylch cefnogol hwn yn cyfrannu at ymddygiad cyson gwrtais y disgyblion a'u parodrwydd i ymgysylltu'n llawn ym mywyd yr ysgol. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o'r disgyblion, yn cynnwys y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) a'r rhai sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim, yn gwneud cynnydd addas yn eu dysgu.

Mae profiadau dysgu yn ddifyr ac yn defnyddio cyd-destun lleol yr ysgol yn dda. Mae disgyblion yn mwynhau dathlu diwylliant Cymru ac yn defnyddio'r iaith yn frwdfrydig mewn sefyllfaoedd bob dydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu medrau llythrennedd a mathemategol cadarn, ac mae disgyblion hŷn yn gallu darllen â dealltwriaeth, ysgrifennu ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd a datrys problemau rhif mwy cymhleth.

Wrth iddynt fynd yn hŷn, mae disgyblion yn ennill medrau digidol, creadigol a chorfforol cynyddol werthfawr, yn aml trwy weithio gyda'i gilydd ar brosiectau diddorol mewn celf, cerddoriaeth a dawns. Fodd bynnag, yn gyffredinol, caiff grwpiau arweinyddiaeth disgyblion eu gor-gyfarwyddo gan staff.

At ei gilydd, mae'r addysgu'n cynorthwyo'r rhan fwyaf o ddisgyblion i wneud cynnydd addas o'u mannau cychwyn unigol. Mae athrawon yn defnyddio staff cymorth yn effeithiol ac yn hyrwyddo medrau dysgu'n annibynnol disgyblion yn addas. Mewn ychydig o achosion, nid yw athrawon yn sicrhau bod lefel yr her yn gweddu i anghenion disgyblion, ac mae adborth athrawon i ddisgyblion yn amrywiol o ran ei effeithiolrwydd. Mae hyn yn golygu nad yw disgyblion bob amser yn gwneud y cynnydd y gallent ei wneud. Mae arweinwyr wedi sefydlu diwylliant diogelu priodol, ac mae staff yn rhoi pwyslais cryf a llwyddiannus ar les disgyblion. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn deall sut i aros yn ddiogel ar-lein, yn mwynhau dysgu am ffyrdd iach o fyw, ac yn elwa ar gymorth gofalgar gan staff. Fodd bynnag, er gwaethaf ymdrechion yr ysgol, mae cyfraddau absenoldebau parhaus yn rhy uchel.

Mae llywodraethwyr yn ymroddgar a chefnogol, ac mae arweinwyr yn datblygu partneriaethau â sefydliadau allanol sy'n cyfoethogi profiadau disgyblion. Fodd bynnag, nid yw prosesau'r ysgol ar gyfer hunanwerthuso, cynllunio gwelliant a rheoli adnoddau, yn canolbwyntio'n ddigon da ar nodi'r gwahaniaeth a wna gwaith yr ysgol a'i defnydd o adnoddau i gynnydd disgyblion. Er bod rhieni a gofalwyr yn gwerthfawrogi ymagwedd drws agored a chyfathrebu'r ysgol, mae'r wybodaeth a gânt am gynnydd eu plentyn yn gyfyngedig.

# Argymhellion a beth sy'n digwydd nesaf

**Rydym wedi gwneud tri argymhelliad i helpu'r ysgol i barhau i wella, sef:**

A1 Cryfhau prosesau hunanwerthuso, cynllunio gwelliant a rheoli adnoddau i sicrhau ffocws cyson ar ddeilliannau disgyblion

A2 Darparu her gyson ac adborth amserol i sicrhau bod pob un o'r disgyblion yn gwneud y cynnydd y gallent ei wneud

A3 Lleihau cyfraddau absenoldebau parhaus

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad

## Adroddiad llawn

Os hoffech ddarllen mwy am werthusiad Estyn o'r ysgol, dilynwch y ddolen hon i'r adroddiad llawn.

© Hawlfraint y Goron 2026: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 22/01/2026